## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Mae Cynllun y Gaeaf ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael ei ddatblygu er mwyn nodi cyfrifoldebau ac ymrwymiadau lefel uchel Llywodraeth Cymru a'i sefydliadau partner i fodloni gofynion gaeaf 2021/22. Mae hefyd yn cadarnhau'r blaenoriaethau i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG i gynnal ein gwasanaethau allweddol ar gyfer pobl Cymru yn ystod y gaeaf, ac i ddiogelu Cymru.

Mae pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gydol y flwyddyn, ond gall y gaeaf fod yn gyfnod arbennig o heriol. Gall tywydd oerach a mwy peryglus; cynnydd neu newidiadau mewn gweithgarwch yn rhai rhannau o'r system; a lledaeniad clefydau heintus fel COVID-19 a'r ffliw oll arwain at bwysau ychwanegol ar staff rheng flaen, a chael effaith negyddol ar brydlondeb mynediad a phrofiadau.

Mae’r GIG yng Nghymru bob amser yn cynllunio ar gyfer misoedd y gaeaf er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn barod i ymdopi â’r galw ychwanegol a ddaw o ganlyniad i’r tywydd oer a’r cynnydd mewn salwch ymhlith cleifion. Rhagwelir y bydd yr heriau’n fwy difrifol eleni, ac mae’n debygol y bydd effaith COVID-19 yn arwain at hyd yn oed mwy o alw ar ein gwasanaethau.

Mae Cynllun y Gaeaf ar gyfer **Iechyd a Gofal Cymdeithasol** wedi cael ei ddatblygu gan feddwl yn gyson am *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015*. Rydym wedi defnyddio’r pum ffordd o weithio ac wedi dilyn yr ymrwymiadau sydd wedi cael eu gwneud yn *Cymru Iachach*.

**Tymor hir**

Mae Cynllun y Gaeaf yn berthnasol i gyfnod gaeaf 2021/22 ond mae’n cynnwys y camau gweithredu a’r datblygiadau ers dechrau’r pandemig COVID-19 ym mis Mawrth 2020, gan gynnwys gwersi a ddysgwyd, gweithgareddau arloesol a ffyrdd newydd o weithio a fydd yn golygu bod y boblogaeth mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol.

Mae eleni wedi parhau i gyflwyno heriau sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19. Mae'r system iechyd a gofal cymdeithasol wedi teimlo pwysau parhaus o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y pandemig ynghyd ag amrywiaeth o ffactorau eraill sydd wedi arwain at gynnydd mawr iawn yn y galw am yn ein gwasanaethau.

Mae COVID-19 wedi bod yn bandemig a effeithiodd ar y byd i gyd, gan gyrraedd Ewrop yn ystod gwanwyn 2020. Ar 30 Medi 2021 cadarnhawyd bod dros 355,000 o bobl wedi cael COVID-19 yng Nghymru ac mae bron i 6,000 o bobl wedi colli eu bywydau (5,892).

Rhaid inni barhau i gynllunio ac ystyried y ffordd rydym yn byw ein bywydau a'r ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau iechyd a chymdeithasol i addasu i'r heriau i’n system iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Mae Cynllun y Gaeaf yn mynd i'r afael â'r pum niwed sy'n gysylltiedig â COVID-19:

- Niwed yn sgil COVID-19 ei hun
- Niwed yn sgil system GIG a gofal cymdeithasol sydd wedi'i gorlethu
- Niwed yn sgil lleihad mewn gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â COVID-19
- Niwed yn sgil cyfyngiadau/camau cymdeithasol ehangach
- Niwed yn sgil anghydraddoldebau newydd neu bresennol naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i COVID-19

Mae Cynllun y Gaeaf yn gynllun integredig sy'n dangos sut bydd angen i sefydliadau sy'n gweithio ar draws y gymuned iechyd a gofal cymdeithasol gyfrannu er mwyn i'r holl wasanaethau allu darparu gofal effeithiol i bobl Cymru y gaeaf hwn. Bydd yn cynnig glasbrint ar gyfer y tymor hirach.

Mae'r cynllun yn ceisio cefnogi'r gwaith o gyflawni'r manteision tymor hirach fel gweledigaeth Cymru Iachach ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol integredig a chynaliadwy a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu 'Symud Cymru Ymlaen'.

Bydd y gwersi a ddysgwyd o'r gwaith a wnaed i ymateb i'r pandemig yn hanfodol i gefnogi adferiad a pharhad hirdymor. Bydd Cynllun y Gaeaf yn defnyddio'r cyfleoedd sydd wedi codi yn ystod y pandemig i gefnogi ffyrdd newydd o weithio, fel cyflwyno atebion arloesol a digidol, buddsoddiad ariannol a threfniadau partneriaeth, llywodraethu a chynllunio cryfach.

**Atal**

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu strategaethau ac wedi mynd i'r afael â COVID-19 gan ganolbwyntio'n gryf ar atal. Mae'n adeiladu ar raglenni sydd eisoes ar waith fel y rhaglenni gofal wedi'i gynllunio a gofal heb ei drefnu sy'n gosod ymrwymiad cyffredinol i ganolbwyntio ar agwedd ehangach o atal gan ddechrau gyda chyfleoedd ar gyfer llesiant personol.

Fel llywodraeth, rydym wedi ceisio diogelu a chefnogi ein GIG drwy wneud buddsoddiad ychwanegol i gyflawni newidiadau cyflym mewn modelau gwasanaeth i gynnal mynediad i wasanaethau hanfodol ac i gynyddu capasiti gwasanaethau ar gyfer COVID-19.

Rydym wedi buddsoddi £240miliwn i gefnogi a chyflymu'r broses o adfer ein gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu hasesiad a'u triniaeth cyn gynted â phosibl. Rydym hefyd wedi buddsoddi £25miliwn yn rheolaidd i gefnogi trawsnewid ein gwasanaethau gofal brys a gofal argyfwng i ddarparu'r gofal iawn yn y lle iawn, y tro cyntaf.

Mae llwyddiant rhaglen frechu COVID-19 wedi caniatáu rhyddid mawr ei angen i'n cymdeithas ac wedi cefnogi ailagor ein heconomi ond mae cysgod y pandemig yn parhau drosom wrth inni symud i'r gaeaf. Rydym wedi gweld cyfraddau heintio cynyddol a mwy o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbytai gyda salwch cysylltiedig â'r coronafeirws.

Drwy wneud gwaith monitro a modelu parhaus ar y cyfraddau heintio a nifer y bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty, ac olrhain y risgiau sy'n gysylltiedig ag ymddangosiad amrywiolion newydd ynghyd â mesurau atal a rheoli heintiau yn ein lleoliadau iechyd

a gofal cymdeithasol, byddwn yn parhau i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws.

Mae'r rhaglen frechu yn parhau ac yn unol â chyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu a’r Prif Swyddogion Nyrsio, bydd yn parhau i ddarparu brechlynnau cyntaf i'r grwpiau estynedig, ynghyd â thrydydd dos a phigiadau atgyfnerthu.

Ochr yn ochr â'r rhaglen frechu COVID-19 bydd angen i ni ddarparu'r rhaglen brechu rhag y ffliw tymhorol fel mesur ataliol ar gyfer grwpiau sydd mewn perygl (e.e. pobl â chyflyrau clinigol) ac ar gyfer ein timau iechyd a gofal cymdeithasol. Y gaeaf diwethaf, y nifer a fanteisiodd ar y brechiad rhag y ffliw oedd yr uchaf a gofnodwyd erioed yng Nghymru ac rydym eisiau sicrhau canlyniad tebyg eto eleni.

Mae'r cynllun hefyd yn amlinellu blaenoriaethau i gefnogi;

- pobl â chyflyrau anadlol;
- plant a phobl ifanc,
- gwydnwch gwasanaethau gofal sylfaenol a gofal wedi'i gynllunio
- datblygu gwasanaethau sy’n rhoi dewisiadau eraill sy’n ddiogel yn glinigol yn lle mynd i’r ysbyty.

Mae’r cynllun yn cydnabod bod llawer o’r ysgogiadau i gynnal iechyd a llesiant, yn enwedig mewn meysydd fel effaith COVID ar iechyd meddwl, y tu allan i’r system iechyd a gofal cymdeithasol. Mae camau gweithredu a buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn meysydd sy’n diogelu ac yn atal salwch fel cymorth cyflogaeth, atal digartrefedd, cyngor ar ddyledion a chadernid cymunedol yn hollbwysig.

**Integreiddio**

Rhoddwyd ystyriaeth i Ffyniant i Bawb. Mae nodau ac amcanion cwmpasu a chynhyrchu Cynllun y Gaeaf yn cyd-fynd â’r angen i greu amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol integredig a di-dor.

Mae Cynllun y Gaeaf yn cydnabod bod y Cyfyngiadau Symud Cenedlaethol i atal COVID-19 rhag lledaenu’n gynharach yn y flwyddyn wedi cael effaith niweidiol ar lawer o bobl, yn enwedig y rheini a oedd eisoes yn dioddef o gyflwr iechyd meddwl.

O ran iechyd meddwl, mae atgyfeiriadau wedi bod yn cynyddu ar draws nifer o feysydd gwasanaeth, yn enwedig gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Mae’n bwysig bod gwasanaethau’n parhau i ymateb i anghenion iechyd meddwl yng nghyd-destun y galw cynyddol hwn ac mae Cynllun y Gaeaf yn tanlinellu’r ffaith y dynodwyd bod gwasanaethau iechyd meddwl (gan gynnwys gwasanaethau camddefnyddio sylweddau) yn ‘hanfodol’ ac felly bod rhaid eu cynnal. Mae hi’n arbennig o bwysig bod pobl yn cael eu hannog i ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl pan fydd eu hangen arnynt, nawr ac yn y dyfodol.

**Cydweithio**

Mae Ffyniant i Bawb yn hyrwyddo cydweithio ar draws ffiniau i gyflawni gwelliant mewn iechyd a llesiant i boblogaeth Cymru.

Mae Cynllun y Gaeaf yn ddogfen lefel uchel sy’n defnyddio’r partneriaethau sydd eisoes yn bodoli ar draws y gymuned iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Cynllun y Gaeaf yn galw ar bob sefydliad partner i ymrwymo i fynd i’r afael â COVID-19 a'i atal rhag lledaenu ymhellach ac atal effaith y clefyd dros y chwe mis nesaf.

Hyd yma, mae’r holl bartneriaid allweddol, sef GIG Cymru, Awdurdodau Lleol, y sector gofal cymdeithasol ehangach (darparwyr gofal a’r trydydd sector), prifysgolion a strwythurau partneriaeth fel Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Chyrff Gwasanaeth Cyhoeddus wedi cydweithio i fynd i’r afael â heriau COVID-19 yng Nghymru. Mae’r un ymrwymiad i’w weld yng Nghynllun y Gaeaf ac mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod ystod eang o randdeiliaid wedi cael gweld ei ddatblygiad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymateb ar y cyd gan sicrhau bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a'u partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol, yn cydweithio drwy amrywiaeth o gynlluniau a data i ddarparu sicrwydd pendant y bydd gwasanaethau’r gaeaf hwn yn effeithiol ac yn gadarn.

**Cyfranogiad**

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Cynllun y Gaeaf er mwyn arwain y gwaith cynllunio ar gyfer y gaeaf, a gaiff ei wneud yn ystod yr hydref bob blwyddyn yn draddodiadol.

Mae cyrff GIG Cymru, ac awdurdodau lleol, wedi cael gwybod am ei ddatblygiad ac mae'r cynllun wedi'i rannu â Phrif Swyddogion Gweithredol y GIG ac Awdurdodau Lleol ac Arweinwyr Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, oherwydd bod angen ymateb ar frys, yn ystod toriad traddodiadol yr haf, roedd y gofynion yn golygu nad oedd cymaint o gyfle i gynnwys cydweithwyr yn y gwaith datblygu fel y byddai wedi digwydd yn ddelfrydol.

**Effaith**

Mae Cynllun y Gaeaf yn bwysig gan ei fod yn nodi ym mha gyd-destun cyffredinol y mae Llywodraeth Cymru a’i phartneriaid yn disgwyl mynd i’r afael â’r heriau iechyd a gofal cymdeithasol y gaeaf hwn.

Bydd Cynllun y Gaeaf yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o aeafau blaenorol a thrwy gydol pandemig COVID-19. Bydd yn rhoi sicrwydd a chyfeiriad ynghylch beth sydd ei angen, ynghyd â chadw gwasanaethau’n gydgysylltiedig a chefnogi cleifion a staff dros y misoedd nesaf. Bydd yn dangos yn glir i'r cyhoedd ac i randdeiliaid y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i gefnogi ein hymateb i’r heriau y mae'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn eu hwynebu y gaeaf hwn gan gynnwys parhau i ddarparu brechlynnau COVID-19 i'r grwpiau ychwanegol (pobl ifanc 12-15 oed) ochr yn ochr â brechiadau atgyfnerthu ac ymgyrchoedd cynhwysfawr brechu rhag y ffliw yr hydref hwn.

**Costau ac Arbedion**

Ni fydd unrhyw gost ariannol o ganlyniad i gwmpasu a datblygu Cynllun y Gaeaf ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, fodd bynnag mae llawer iawn eisoes wedi cael ei fuddsoddi mewn seilwaith iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod 2021-22 i gefnogi’r prif ofynion a nodir yng Nghynllun y Gaeaf. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys:

- Arian adfer a roddwyd ar gyfer gofal wedi'i gynllunio (£140m yn ychwanegol at y £100m a ddyrannwyd eisoes)
- Cyllid gofal cymdeithasol o £48m
- Cyllid gwerth £25m ar gael i wella'r ffordd mae gofal brys a gofal mewn argyfwng yn cael eu darparu. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi nifer o'r camau sydd wedi'u nodi yng Nghynllun y Gaeaf.

**Mecanwaith**

Ni chaiff deddfwriaeth ei chynnig fel rhan o'r gwaith hwn, nid oes angen asesiad effaith rheoleiddiol.

## ADRAN 7. CASGLIAD

Mae cydweithio wedi digwydd gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys GIG Cymru, awdurdodau lleol, y trydydd sector a'r sector annibynnol, a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ystod y misoedd cyn cyhoeddi gofynion Cynllun y Gaeaf.

Rhoddwyd gwybod i'r holl randdeiliaid am Gynllun y Gaeaf mewn datganiadau llafar gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 6 a 19 Hydref 2021, cyn i'r cynllun gael ei gyhoeddi ar 21 Hydref 2021.

Ers hynny, mae Cynllun y Gaeaf wedi cael ei ddatblygu drwy drafodaethau â chydweithwyr ar draws yr adran Iechyd a gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru, arweinwyr proffesiynol ac uwch gydweithwyr yn y gwasanaeth fel Prif Weithredwyr y GIG, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol etc.

Ddechrau mis Medi cafodd yr holl randdeiliaid wybod y byddai Cynllun y Gaeaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2021. Mae'n dwyn ynghyd yr ystod o baratoadau presennol a disgwyliedig ar gyfer y gaeaf ac mae rhanddeiliaid eisoes yn ymwybodol o'r rhan fwyaf o'r meysydd.

### 7.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

**Dylai Cynllun y Gaeaf gael effaith gadarnhaol ar bobl ar draws Cymru.** Cynllun y Gaeaf yw cynllun trosfwaol Llywodraeth Cymru a fydd yn gosod y cyd-destun cyffredinol a'r cyfeiriad ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol tan fis Mawrth 2022**.**

Mae'n nodi'r gofynion ar gyfer rhanddeiliaid, ynghylch yr ystod o gamau gweithredu a chynlluniau wrth gefn y mae disgwyl iddynt eu gweithredu ar draws y system iechyd a gofal, a gyda'r partneriaid ehangach, i reoli'r cam adfer iechyd y cyhoedd a darparu gwasanaethau dros gyfnod heriol y gaeaf. Mae'n rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ein bod yn cydweithio ar draws y wlad i ddiogelu Cymru.

Bydd y prif effeithiau'n gadarnhaol gan fod Cynllun Diogelu'r Gaeaf wedi'i anelu at bawb ni waeth beth yw eu hoed, eu hil eu crefydd ac ati. Mae Cynllun y Gaeaf yn cydnabod y gallai COVID-19 gael effaith fwy niweidiol ar rai grwpiau o bobl. Bydd yn helpu pobl i ddeall eu cyfrifoldeb personol drostynt eu hunain a'r effaith ar bobl eraill, yn ogystal â'r hyn mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i barhau i'w helpu nhw ac i ddiogelu'r GIG. Mae Cynllun y Gaeaf yn nodi camau gweithredu i'r y GIG yng Nghymru, a'u partneriaid, eu cymryd, er mwyn lliniaru'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth y gaeaf hwn.

Yn yr un modd, mae Cynllun y Gaeaf yn cydnabod bod angen i wasanaethau hanfodol weithredu yn ystod gaeaf 2021/22 i sicrhau bod pobl sydd â chyflyrau heblaw COVID-19 yn gallu cael cyngor a thriniaeth yn ddiogel ac yn brydlon.

Pan fydd pobl yn perthyn i grŵp agored i niwed, boed hynny oherwydd eu cyflyrau iechyd isorweddol neu oherwydd eu hethnigrwydd, yna mae Cynllun y Gaeaf yn pwysleisio'r angen i sefydliadau fynd i'r afael â'r rhain yn y ffordd maent yn darparu eu gwasanaethau.

**7.3 Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig yn:**

- **Sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant a/neu;**
- **Osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol**

Bydd Cynllun y Gaeaf yn cyfrannu at nod llesiant 'Cymru Iachach' gan ei fod yn pwysleisio bod angen i bob rhanddeiliad a'r cyhoedd gydweithio i sicrhau bod iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn gallu darparu gofal a thriniaethau priodol i bobl sydd â symptomau COVID-19 a'r rheini sydd â chyflyrau eraill.

Mae Cynllun y Gaeaf yn hyrwyddo dull gweithredu system gyfan o ran iechyd a gofal cymdeithasol a fydd yn golygu bod modd diwallu anghenion a dewisiadau unigolion ac ymdrechu i leihau anghydraddoldebau iechyd a llesiant.

Drwy fonitro a modelu'n barhaus gyfraddau heintiau a chyfnodau yn yr ysbyty, ac edrych ar y risgiau sy'n gysylltiedig ag amrywiolion newydd ynghyd â mesurau gweithredol atal a rheoli heintiau yn ein lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, byddwn yn parhau i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Mae'r rhaglen frechu'n parhau ac yn gweithredu'n unol â chyngor JCVI, a bydd yn parhau i ddarparu brechiadau cyntaf, ochr yn ochr â thrydydd dos o'r brechlyn a brechiadau atgyfnerthu.

**7.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Bydd cynlluniau'r gaeaf a gwblhawyd gan sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol ac a gydlynir drwy fyrddau partneriaeth rhanbarthol yn cael eu hasesu gan grŵp gorchwyl cynllunio tymhorol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a darperir adborth drwy'r Byrddau Iechyd Lleol.

Bydd Tîm Cynllunio a Pherfformiad y GIG yn gweithio gyda byrddau iechyd i fonitro eu cynlluniau drwy gydol y gaeaf.

*****Mae Asesiad Effaith ar wahân ar Risg Plant wedi'i gwblhau a'i gyhoeddi (Atodiad A) i gyd-fynd â'r ddogfen hon.*****

**Atodiad B – Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb**

**1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y’u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

Mae tywydd oer yn gysylltiedig â chynnydd mewn salwch ac anafiadau. Mae tywydd oer yn cynyddu'r risg o drawiadau ar y galon, strôc, salwch yr ysgyfaint, y ffliw a chlefydau eraill. Mae pobl yn llithro ac yn disgyn yn yr eira neu'r rhew, ac weithiau'n dioddef anafiadau difrifol. Mae rhai grwpiau, megis pobl hŷn, plant ifanc iawn, a phobl â chyflyrau meddygol difrifol yn arbennig o agored i effeithiau tywydd oer.

Fel y disgrifiwyd uchod, mae Cynllun y Gaeaf wedi'i fwriadu ar gyfer pawb waeth beth fo'u hoedran, hil, crefydd etc, ond mae'n cydnabod y gall grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys yr henoed a phobl â chyflyrau iechyd isorweddol, gael eu heffeithio’n waeth gan heriau'r gaeaf megis tywydd oer a chlefydau anadlol tymhorol fel y ffliw. Mae hefyd yn cydnabod effaith anghymesur COVID-19 ar bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, grwpiau agored i niwed a chymunedau tlotach.

Mae'r cynllun yn nodi'r camau i'r GIG yng Nghymru, a'i partneriaid, eu cymryd, er mwyn lliniaru'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth y gaeaf hwn ac i helpu i ddarparu gwasanaeth teg i bawb. Mae'n cyd-fynd ag ymrwymiad y Llywodraeth i leihau anghydraddoldebau iechyd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae'r cynllun yn amlinellu ein blaenoriaethau, sy'n cynnwys sicrhau digon o gapasiti a mynediad at wasanaethau iechyd a gofal ar gyfer pob grŵp poblogaeth, gan ganolbwyntio ar y rhai sydd â’r risg fwyaf dros y gaeaf. Mae'n cydnabod yr angen i gydbwyso'r risg o niwed a’r budd o driniaeth a'r angen i sicrhau bod grwpiau sy'n agored i niwed yn cael eu cefnogi i gael y driniaeth sydd ei hangen arnynt.

Bydd datblygu cynlluniau integredig lleol, dan arweiniad byrddau partneriaeth rhanbarthol, yn disgrifio sut y caiff gwasanaethau eu darparu ar lefel leol i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, gan gynnwys pobl o grwpiau gwarchodedig. Mae'r cynllun cenedlaethol yn nodi'r disgwyliad i bartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol gydlynu eu gwasanaethau a chyfuno neu alinio adnoddau er mwyn sicrhau bod y cynllun integredig rhanbarthol yn cael yr effaith fwyaf posibl ar bobl sy'n byw yn y cymunedau hynny.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i asesu'r sefyllfa a'r risgiau y mae COVID-19 yn eu peri ac, yn seiliedig ar gyngor clinigol, bydd yn ymateb yn unol â hynny i gadw'r bobl fwyaf agored i niwed yn ddiogel.

Mae’r gwahaniaethau o ran statws brechu rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol, grwpiau oedran a grwpiau ethnig, yn ogystal â phobl o wahanol gefndiroedd rhyngwladol, yn parhau’n ffocws ar gyfer gweithredu. Mae'r rhaglen frechu wedi ymrwymo'n glir i sicrhau cyfle cyfartal a mynediad i bawb.

Bydd cynlluniau’r gaeaf a luniwyd gan sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol ac a gydlynir drwy fyrddau partneriaeth rhanbarthol yn cael eu hasesu gan grŵp gorchwyl cynllunio tymhorol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a darperir adborth drwy'r Byrddau Iechyd Lleol.